

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis deintyddol Nicola Taaffe at
West Grove, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 3 Hydref 2023

Dyddiad cyhoeddi: 3 Ionawr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.Yr hyn a wnaethom	5
2.Crynodeb o'r arolygiad	6
3.Yr hyn a nodwyd gennym	8
• Ansawdd Profiad y Claf	8
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4.Y camau nesaf.....	18
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	19
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
Atodiad C - Cynllun gwella.....	24

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o bractis deintyddol Nicola Taaffe at West Grove, Caerdydd ar 3 Hydref 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 19 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod practis deintyddol Nicola Taaffe at West Grove yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Mewn ymateb i holiadur AGIC, roedd y sylwadau ar y cyfan yn gadarnhaol. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth naill ai'n 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dangos i'r cleifion yr eir i'r afael â'u hadborth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd glân, dymunol, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda
- Darpariaeth dda o wybodaeth i'r cleifion, gan gynnwys trwy wefan
- Addasiadau wedi cael eu gwneud i helpu pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn drefnus. Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.

Gwelsom fod y staff yn dilyn gweithdrefnau clir er mwyn sicrhau bod offer deintyddol yn cael ei ddihalogi, a bod cyfarpar meddygol yn cael ei brofi a'i wirio'n rheolaidd.

Roedd pob ardal yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mwy o wybodaeth fanwl wrth gwblhau cofnodion y cleifion
- Cynnal ymarferion gwagio'r adeilad
- Sicrhau y gellir cau'r drws i'r seler.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion
- Roedd y cyfarpar clinigol mewn cyflwr da a chofnodion da wedi cael eu cadw
- Roedd mesurau priodol ar waith ar gyfer rhoi tawelydd ymwybodol i gleifion yn ddiogel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwnaethom nodi bod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau rheoli clir. Roedd y perchennog, a eodd hefyd yn gweithredu fel y prif ddeintydd a'r rheolwr cofrestredig, yn cael ei gefnogi gan reolwr practis effeithiol.

Gwelsom fod rheolwr y practis yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel, i'r cleifion a'r staff. Gwelsom dîm sefydledig a oedd yn cydweithio'n dda â'i gilydd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Defnydd effeithiol o system electronig i gynnal polisiau a gweithdrefnau
- Roedd cofnodion y staff a chofnodion cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn gyflawn ac yn cael eu rheoli'n dda
- Cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"Practis rhagorol, glân, defnyddiol a staff gwybodus."

"Cael fy nhrin fel unigolyn bob amser, mae pethau personol yn bwysig iawn i mi a fy nheulu, ac felly rwyf wedi aros efo'r practis hwn am dros ugain mlynedd."

"Gofal cyfeillgar a rhagorol ym mhob rhan o'r practis."

"Rwyf wedi bod yn glaf am dros 25 mlynedd ac mae'r gwasanaeth gan bob aelod o'r staff yn rhagorol."

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth o ddeunydd ar gael i gleifion yn yr ardal aros, am iechyd y geg a gofal deintyddol. Roedd taflenni gwybodaeth i gleifion am y practis ar gael ar ddesg y dderbynfa.

Roedd arwyddion dim smygu yn cael eu harddangos a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Cytunodd pob un a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi esbonio iechyd y geg wrthynt mewn ffordd roeddent yn ei deall, a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal Urddasol a Pharchus

Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau pan oeddent yn cael eu defnyddio ac roedd bleinds y cael eu gosod ar ffenestri allanol, a roddodd sicrwydd i ni fod urddas y cleifion yn cael ei gynnal.

Roedd desg y dderbynfa wedi'i lleoli yn yr ardal aros ar y llawr gwaelod. Nodwyd gennym fod radio yn cael ei chwarae er mwyn helpu i gadw preifatrwydd, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn ystyriol o faterion cyfrinachedd wrth drafod materion â'r cleifion. Dywedodd y staff wrthym hefyd y gellir defnyddio'r ystafell staff, neu feddygfa sydd ar gael, os byddai claf am drafod mater yn breifat.

Gwelsom fod poster yn dangos prisiau triniaethau wedi'i arddangos yn glir yn ardal aros y cleifion. Roedd copïau Cymraeg a Saesneg o god moeseg y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos. Gwelwyd bod tystysgrifau cofrestru AGIC hefyd yn cael eu harddangos.

Roedd lluniau gydag enwau a rolau'r staff yn cael eu harddangos, ond nid oedd y rhain yn cynnwys eu rhifau Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Codwyd hyn gyda Rheolwr y Practis a chafodd ei ddatrys yn ystod yr arolygiad.

Dywedodd pob un a ymatebodd i holiadur AGIC bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch ac wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud iddynt drwy gydol yr apwyntiad.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion wyth claf a chadarnhawyd bod gwybodaeth ar gyfer adnabod y cleifion wedi'i chofnodi ar yr holl nodiadau.

Roedd pob un a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno ei fod yn cael digon o wybodaeth am y risgiau, y manteision a chostau opsiynau'r driniaeth a'i bod yn cael ei gynnwys cymaint ag yr hoffai yn y penderfyniadau am ei driniaeth.

Amserol

Gofal Amserol

Gallai'r cleifion drefnu apwyntiadau yn y practis dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu drwy ddefnyddio system trefnu apwyntiadau ar-lein.

Dywedodd y staff er nad oedd slotiau apwyntiadau'n cael eu cadw ar gyfer argyfyngau fel mater o drefn, roeddent yn gwneud pob ymdrech i ddarparu ar gyfer cleifion sydd angen gofal brys.

Dywedodd y staff wrthym fod gwasanaeth anfon neges ar unwaith ar waith i'r rhai a oedd yn gweithio yn y deintyddfeydd er mwyn rhoi gwybod i staff y dderbynfa am unrhyw oedi, ac y byddai'r cleifion yn cael eu hysbysu ar lafar.

Gwelsom staff y dderbynfa yn darparu ar gyfer claf a oedd yn ffonio i ddweud ei fod yn hwyr ac yn ail-drefnu ei apwyntiad yn gwrtais.

Roedd oriau agor y ddeintyddfa wedi'u harddangos yn glir y tu allan i'r practis. Yn ystod yr wythnos waith roedd y ddeintyddfa ar agor o 08:00 tan naill ai 18:00 neu 20:00, yn dibynnu ar y diwrnod. Roedd hyn yn sicrhau y gallai'r cleifion gael eu hapwyntiadau ar adeg a oedd yn gweddu i'w hanghenion.

Dywedodd pob un o'r rhai a gwblhaodd holiadur AGIC ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dywedodd y staff wrthym fod gwefan y practis yn cynnwys adran ar bwysigrwydd cyfathrebu effeithiol. Golygai hyn os nad Saesneg oedd iaith gyntaf claf, y dylent ddod ag unigolyn y gellir ymddiried ynddo i gyfieithu. Fel arall, cynghorwyd cleifion i ddefnyddio gwasanaeth GIG Cymru 111 i gael cyfieithydd.

Hawliau a Chydraddoldeb

Er mwyn sicrhau bod hawliau'r staff a'r cleifion yn cael eu diogelu, roedd gan y practis nifer o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawlia Dynol, a pholisi Gwrth-fwlio ac Aflonyddu. Cafodd rhai eu cefnogi gan ddogfennau am Ddeddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Cyfiawnder, a oedd yn nodi nodweddion gwarchoddedig i'w hystyried.

Dywedodd y staff wrthym fod nodiadau'n cael eu cadw i nodi cleifion sy'n defnyddio cadair olwyn neu sydd ag anawsterau symudedd, ac roeddent yn sicrhau bod eu hapwyntiadau wedi eu trefnu yn y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod er mwyn iddynt ei gyrraedd yn haws. Roedd y practis yn defnyddio rampiau y gellid eu gosod a'u tynnu wrth y brif fynedfa, yn ôl yr angen, er mwyn galluogi mynediad i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd posteri y tu allan i'r practis yn hysbysebu bod mynediad i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn yn bosibl a darparwyd rhif ffôn ar gyfer hyn. Nid oedd dolen sain i helpu cleifion ag anawsterau clywed.

Roedd sribedi ar risiau'r safle er mwyn ei gwneud yn fwy gweladwy ac i atal y cleifion rhag colli eu gafael. Gwnaethom sylwi bod rhai o'r sribedi wedi breuo ac wedi'u difrodi. Cafodd hyn ei godi â rheolwr y practis a darparwyd tystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad i ddangos bod y sribedi a oedd wedi'u difrodi wedi cael eu newid.

Dywedodd y staff wrthym fod hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu hystyried, a chaiff unrhyw ragenwau neu enwau a ffefrir eu cynnwys ar gofnod y claf.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Gwelsom fod yr adeilad yn lân ac mewn cyflwr da, ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg. Ar y cyfan, roedd yr ardaloedd clinigol yn lân, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac mewn cyflwr da. Fodd bynnag, gwnaethom nodi dau ddrôr ac arwyneb gwaith yn y deintyddfeydd a oedd wedi'i sgraffinio ac yr oedd angen rhoi sylw iddynt.

Rydym yn argymhell y dylai'r gwaith cynnal a chadw gael ei gyflawni yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau bod y droriau'n gweithio'n iawn a bod yr arwynebau gwaith yn cael eu cadw'n lân.

Nodwyd bod rhai offer yn rhydd o'u bagiau ac yn rhydd mewn droriau. Gwnaethom gynghori y dylai'r holl gyfarpar gael ei storio mewn bagiau wedi'u selio a'u sterileiddio ar ôl i'r offer gael eu dihalogi. Gwnaethom godi hyn yn ystod yr arolygiad a chafodd yr offer eu hailbroseu a'u rhoi mewn bagiau ar unwaith.

Gwelwyd bocs o ffiolau Botox gwydr mewn twb plastig â chwistrellau heb eu defnyddio. Y therapydd oedd yn berchen ar y rhain, a oedd yn cynnig gwasanaethau pigiadau esthetig yn ogystal â gwasanaethau deintyddol. Gwnaethom godi hyn yn ystod yr arolygiad a symudwyd a chafwyd gwared ar y ffiolau.

Roedd yr ardaloedd aros i'w gweld yn lân, ac roedd arwynebau y gellir eu sychu'n lân wedi'u darparu ar y seddau er mwyn helpu i reoli heintiau.

Gwnaethom adolygu'r dogfennau a oedd yn ymwneud â diogelwch tân a gwelsom fod gan y practis asesiad risg cyfredol, a chofnodion o wiriadau rheolaidd ar lwybrau dianc a chynnal a chadw cyfarpar diogelu tân. Roedd arwyddion clir o'r allanfa dân. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod ymarferion gwagio'r adeilad mewn tân yn cael eu cynnal.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod cofnodion yn cael eu cadw sy'n dangos pa aelodau o'r staff a gymerodd ran ac unrhyw faterion a nodwyd.

Nodwyd gennym fod gan y practis bolisiau, gweithdrefnau ac asesiadau risg ar waith er mwyn sicrhau bod yr ardal yn addas at y diben. Roedd polisi 'parhad busnes a chynllunio ar gyfer trychinebau' ar waith.

Nodwyd gennym fod arwydd ar ddrws y seler yn nodi 'dim mynediad' ac roedd wedi'i gau â chlicied. Fodd bynnag, gallai'r cleifion fynd i'r ardal o hyd yn eithaf hawdd. Gwnaethom gynghori y dylid diogelu'r ardal, am fod gwastraff clinigol yn cael ei storio yno.

Rydym yn argymhell y dylid diogelu'r mynediad i'r seler a'i wneud ar gael i'r staff yn unig.

Roedd trefniadau priodol ar waith i asesu a rheoli'r risg o ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant staff ar ddiogelu rhag ymbelydredd a gwiriadau cynnal a chadw'r cyfarpar. Gwnaethom gynghori y dylai'r cleifion gael gwybod am y risgiau o fod yn agored i ymbelydredd. Rhoddwyd tystiolaeth ar unwaith ar ôl yr arolygiad i ddangos bod poster wedi cael ei arddangos.

Roedd y practis yn rhoi tawelyddion ymwybodol i gleifion, drwy ddefnydd mewnwythiennol o Midazolam. Roedd tawelyddion ymwybodol yn cael eu rhoi ac amser i wella ar ôl hynny yn cael ei gynnal yn y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod yn unig. Roedd gan y ddeintyddfa hon gadair y gellir ei symud i safle pen i lawr, ac roedd gan yr ystafell fynediad a lle priodol i reoli argyfwng meddygol.

Gwnaethom wirio'r cyfarpar brys a gwelsom fod meddyginiaethau a chyfarpar priodol ar waith. Roedd Flumazenil yn cael ei gadw dan glo mewn cwpwrdd gyda'r Midazolam a phan fo'u hangen byddent yn cael eu tynnu allan gyda'i gilydd. Roedd gan y practis hefyd ocsifesyddion pwls bysedd, monitrau pwysedd gwaed, ocsigen brys gydag amrywiaeth o orchuddion a llwybrau anadlu oro-ffaryngeal.

Gwelsom fod y practis yn cadw cofnodlyfr o gleifion sydd wedi cael tawelyddion, yn ogystal â nodiadau yng nghofnodion y cleifion. Roedd tystiolaeth o archwiliad o gadw cofnodion o dawelyddion ymwybodol, a defnyddiwyd ffurflenni papur i gofnodi unrhyw ddigwyddiadau neu ddamweiniau'n ymwneud â diogelwch y cleifion.

Roedd y toiledau rhywedd cymysg ar y llawr gwaelod ac yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Roedd i'w weld yn lân ac yn daclus, gyda chyfleusterau golchi a sychu dwylo, a biniau gwastraff mislif a llinyn larwm argyfwng.

Roedd chyfleusterau newid y gellir eu cloi a loceri storio ar gael i'r staff.

Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr a phoster lechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn cael eu harddangos yn y practis.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Gwelsom fod trefniadau priodol i sicrhau bod dulliau rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisiau a gweithdrefnau rheoli heintiau ac arweinydd rheoli heintiau dynodedig.

Roedd pob un a ymatebodd i holiadur AGIC o'r farn bod y lleoliad naill ai'n 'lân iawn' neu'n 'eithaf glân', ac roedd pawb a fynegodd eu barn yn teimlo bod y mesurau atal a rheoli heintiau yn amlwg.

Roedd y gweithdrefnau ar gyfer prosesu, dihalogi a sterileiddio offer deintyddol yn briodol ac wedi'u deall yn dda. Roedd gan y practis ystafell ddynodedig ar gyfer dihalogi offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum aelod o staff a gwelsom fod gan staff clinigol gofnodion o frechiadau yn erbyn Hepatitis B. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth ategol i ddangos bod ymateb imiwnedd wedi digwydd ar gyfer dau aelod o'r staff. Gwnaethom gynghori y dylid rhoi asesiad risg ar waith er mwyn lleihau risg o haint i'r staff dan sylw, nes bod gwybodaeth o'r fath ar gael. Darparwyd asesiad risg i AGIC yn syth ar ôl yr arolygiad.

Gwelsom fod sylweddau y mae'r rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn berthnasol iddynt yn cael eu storio'n briodol mewn cypyrddau wedi'u cloi.

Roedd contract gwaredu gwastraff ar waith ac roedd gan y practis drefniadau addas ar gyfer rheoli gwastraff clinigol.

Rheoli Meddyginiaethau

Nodwyd gennym fod gan y practis drefniadau priodol a diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Roedd hyn yn cynnwys storio meddyginiaethau'n ddiogel a chofnodi unrhyw gyffuriau wedi'u rhagnodi yng nghofnodion y cleifion ac mewn cofnodlyfr ar wahân.

Roedd cyfarpar brys ar gael yn hawdd, gyda meddyginiaethau mewn dyddiad a gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf mewn dadebru cardio-anadlol (CPR). Roedd dau swyddog cymorth cyntaf wedi'u penodi. Roedd Diffibriliwr Allanol Awtomataidd ar gael i'w ddefnyddio mewn argyfwng meddygol. Roedd hyn yn cynnwys padiau ar gyfer oedolion ond nid rhai pediatrig.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod padiau pediatrig ar gael ar gyfer y Diffibriliwr Allanol Awtomataidd.

Dyweddod y staff wrthym fod cael gwared â Midazolam sydd wedi mynd heibio ei ddyddiad yn cynnwys dadnatureiddio defnyddio papur tusw, tra bo aelod arall o'r staff yn gwyllo ac yn cofnodi. Gwnaethom gynghori mai'r arfer gorau yw annatureiddio drwy ddefnyddio deunydd rhwymo a fyddai'n gwneud y cyffur yn anadferadwy yn gorfforol cyn ei waredu.

Rydym yn cynghori y dylid annatureiddio Midazolam cyn ei waredu drwy ddefnyddio deunydd rhwymo sy'n ei wneud yn anadferadwy yn gorfforol.

Diogelu Plant ac Oedolion

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau diogelu ar waith a'u bod ar gael i bob aelod o'r staff.

Nodwyd gennym nad oedd cyfeiriad at weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan, a gyhoeddwyd yn 2019.

Rydym yn argymhell y dylid diweddarau'r polisiâu a'r gweithdrefnau i gyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan, a bod y staff yn cael gwybod amdanynt.

Gwnaethom edrych ar gofnodion sampl o bum aelod o staff a gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a chyfredol ar ddiogelu plant ac oedolion. Roedd y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ac mai Rheolwr y Practis oedd eu harweinydd diogelu dynodedig.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Gwelwyd bod y cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben.

Dyweddod y staff wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio cyfarpar clinigol yn ddiogel. Roedd trefniadau ar waith i drin a diheintio dyfeisiau meddygol yn ddiogel.

Roedd y cyfarpar pelydr-X yn cael ei gynnal a'i gadw ac yn gweithio'n iawn. Gwelsom fod hyfforddiant priodol ar ddiogelu rhag ymbelydredd wedi'i gwblhau.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Nodwyd gennym fod trefniadau diogel ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u hamlinellu yn y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion.

Gwelsom gopïau o restrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol (LocSSIPs) yn cael eu harddangos mewn meddygfeydd, ond nid oedd y rhain wedi cael eu hysgrifennu'n unigol yng nghofnodion y cleifion.

Rydym yn argymhell y dylid cofnodi rhestrau gwirio'r LocSSIPs yng nghofnodion unigol y cleifion pan fyddant yn cael eu defnyddio.

Cofnodion y Cleifion

Edrychwyd ar sampl o gofnodion wyth claf. Ar y cyfan, gwelwyd tystiolaeth bod y staff yn cadw cofnodion cywir, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cynnwys dewis iaith y cleifion.

Gwelwyd diffyg manylder priodol mewn rhai meysydd yn y cofnodion a welsom. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys: archwiliad y tu mewn a'r tu allan i'r geg, profion sgrinio canser, asesiadau risg, canfyddiadau clinigol o radiograffau ac opsiynau triniaethau.

Rydym yn cynghori y dylai'r staff clinigol gofnodi gwybodaeth ychwanegol a mwy o fanylder yng nghofnodion y cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei fod yn ymrwymedig ac yn brofiadol ac yn ymroddedig i'r rôl.

Gwelsom fod systemau electronig effeithiol yn cael eu defnyddio i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion rheoliadol ac i reoli anghenion hyfforddiant staff. Roedd polisiau a gweithdrefnau'n cael eu storio'n electronig, roeddent ar gael i bob aelod o'r staff ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd 10 munud yn cael eu cynnal ar ddechrau bob diwrnod ac roedd y practis yn cynnal cyfarfodydd staff bob mis, gyda'r cofnodion yn cael eu cymryd a'u rhannu gydag unrhyw aelodau o'r staff nad oeddent yn bresennol.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Roedd trefniadau priodol ar waith yn y practis ar gyfer cyflogi staff, gan gynnwys polisi a gweithdrefn recriwtio a dethol. Gwelsom dystiolaeth fod y cyfeiriadau wedi'u cymryd, a gwiriadau wedi'u cynnal drwy ddefnyddio'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd (DBS). Roedd rhestrau gwirio sefydlu a chyfnod sefydlu o dri mis yn cael eu defnyddio i sicrhau bod staff newydd yn cwblhau'r hyfforddiant gorfodol.

Dywedwyd wrthym fod perfformiad y staff yn cael ei reoli drwy oruchwyliaeth ac arfarniadau blynyddol.

Roedd cydymffurfiaeth lawn â hyfforddiant gorfodol. Gwelsom fod y staff a oedd yn rhoi tawelyddion ymwybodol i gleifion wedi cwblhau hyfforddiant arbenigol ac roedd yr hyfforddiant hwn yn gyfredol.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Mae'r practis yn annog adborth gan y cleifion drwy ddefnyddio codau QR yn cysylltu ag adolygiadau ar-lein, a'r ddarpariaeth o ddeunyddiau ysgrifennu a blwch awgrymiadau.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod unrhyw adborth a geir mewn holiaduron yn cael ei adolygu'n rheolaidd, ei drafod yn ystod cyfarfodydd tîm a bod camau yn cael eu cymryd i ymateb i'r adborth os oes angen. Darparwyd enghreifftiau megis gosod canllaw ar gyfer y grisiau a handlen gydio yn y toiledau o ganlyniad i'r adborth gan y cleifion. Gwnaethom gynghori y byddai'r cleifion efallai yn fwy tebygol o roi adborth os byddent yn ymwybodol y byddent yn debygol o fynd i'r afael ag ef. Yn syth ar ôl yr arolygiad, cadarnhaodd y practis bod poster "dywedoch chi, gwnaethom ni" yn cael ei harddangos.

Gwelsom fod gwybodaeth am sut i wneud cwyn ar gael yn hawdd i'r cleifion. Nodwyd bod dau boster ar wahân yn cael eu harddangos, gyda gwahanol wybodaeth am amseroedd ymateb a chontractau allanol ac nid oedd yr un o'r ddau yn cynnwys manylion cyswllt penodol y practis. Codwyd hyn gyda rheolwr y practis a chafodd ei ddatrys yn ystod yr arolygiad. Roedd poster gweithdrefn gwyno ddiwygiedig yn cael ei arddangos, yn ogystal â thafleuni gwybodaeth yn y dderbynfa. Roedd hyn yn cynnwys y weithdrefn ac amserlenni, manylion cyswllt a sut i uwchgyfeirio cwyn os nad yw wedi'i ddatrys.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Gwelsom fod polisi llywodraethu a sicrhau ansawdd yn y practis. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi defnyddio system electronig i amserlenni a monitro archwiliadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau o gofnodion clinigol ac archwiliadau o ansawdd radiograffau.

Dywedwyd wrthym eu bod yn ceisio ac yn annog barn y staff yn ystod cyfarfodydd dyddiol a misol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd lluniau gydag enwau a rolau'r staff yn cael eu harddangos, ond nid oedd y rhain yn cynnwys eu rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.	Gallai hyn ei wneud yn anodd i gleifion nodi aelod o'r staff er mwyn gwneud cwyn ffurfiol.	Codwyd hyn ar lafar â Rheolwr y Practis yn ystod yr arolygiad.	Roedd gwybodaeth wedi'i diweddarau yn cael ei harddangos yn ystod yr arolygiad, a oedd yn cynnwys rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.
Roedd stribedi ar risiau'r safle er mwyn ei gwneud yn fwy gweladwy ac i atal y cleifion rhag colli eu gfael. Gwnaethom sylwi bod rhai o'r stribedi wedi breuo ac wedi'u difrodi.	Gallai'r stribedi a oedd wedi'u difrodi fod yn berygl i'r cleifion lithro neu faglu.	Codwyd hyn ar lafar â Rheolwr y Practis yn ystod yr arolygiad.	Darparwyd tystiolaeth yn syth ar ôl yr arolygiad i ddangos bod y stribedi a oedd wedi'u difrodi wedi cael eu newid.

<p>Gwnaethom gynghori y dylai'r cleifion gael gwybod am y risgiau o fod yn agored i ymbelydredd.</p>	<p>Dylai'r cleifion fod yn ymwybodol o'r risgiau a'r manteision o fod yn agored i ymbelydredd pelydr-X a chael cyd-destun am y risgiau.</p>	<p>Codwyd hyn ar lafar â Rheolwr y Practis yn ystod yr arolygiad.</p>	<p>Rhoddwyd tystiolaeth ar unwaith ar ôl yr arolygiad i ddangos bod poster wedi cael ei arddangos.</p>
<p>Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum aelod o staff a gwelsom fod gan staff clinigol gofnodion o frechiadau yn erbyn Hepatitis B. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth ategol i ddangos bod ymateb imiwneidd wedi digwydd ar gyfer dau aelod o'r staff.</p>	<p>Nid yw rhai pobl yn datblygu ymateb imiwneidd i frechiad Hepatitis B. Gwnaethom gynghori y dylid rhoi asesiad risg ar waith er mwyn lleihau risg o haint i'r staff dan sylw, nes bod gwybodaeth o'r fath ar gael.</p>	<p>Codwyd hyn ar lafar â Rheolwr y Practis yn ystod yr arolygiad.</p>	<p>Darparwyd asesiad risg i AGIC yn syth ar ôl yr arolygiad.</p>
<p>Nid oedd unrhyw fecanwaith i ddangos i'r cleifion yr aethpwyd i'r afael â'u hadborth.</p>	<p>Gwnaethom gynghori y byddai'r cleifion efallai yn fwy tebygol o roi adborth os byddent yn ymwybodol y byddent yn debygol o fynd i'r afael ag ef.</p>	<p>Codwyd hyn ar lafar â Rheolwr y Practis yn ystod yr arolygiad.</p>	<p>Yn syth ar ôl yr arolygiad, cadarnhaodd y practis bod poster "dywedoch chi, gwnaethom ni" yn cael ei harddangos.</p>

<p>Roedd gwybodaeth groes i'w gweld am sut i wneud cwyn gyda gwahanol amseroedd ymateb a chysylltiadau allanol ac nid oeddent yn cynnwys manylion cyswllt penodol y practis.</p>	<p>Gallai hyn ei gwneud yn fwy anodd i'r cleifion wneud cwyn.</p>	<p>Codwyd hyn ar lafar â Rheolwr y Practis yn ystod yr arolygiad.</p>	<p>Yn ystod yr arolygiad, roedd poster gweithdrefn gwyno ddiwygiedig yn cael ei arddangos, yn ogystal â thafenni gwybodaeth yn y dderbynfa. Roedd hyn yn cynnwys y weithdrefn ac amserlenni, manylion cyswllt a sut i uwchgyfeirio cwyn os nad yw wedi'i ddatrys.</p>
<p>Nodwyd bod rhai offer yn rhydd o'u bagiau ac yn rhydd mewn droriau.</p>	<p>Gwnaethom gynghori y dylai'r holl gyfarpar gael ei storio mewn bagiau wedi'u selio a'u sterileiddio ar ôl i'r offer gael eu dihalogi.</p>	<p>Codwyd hyn ar lafar â Rheolwr y Practis yn ystod yr arolygiad.</p>	<p>Cafodd yr offer eu hailbrosesu a'u rhoi mewn bagiau ar unwaith.</p>
<p>Gwelwyd bocs o ffiolau Botox gwydr mewn twb plastig â chwistrellau heb eu defnyddio. Y therapydd oedd yn berchen ar y rhain, a oedd yn cynnig gwasanaethau pigiadau esthetig yn ogystal â gwasanaethau deintyddol.</p>	<p>Dylid cael gwared ar ddeunyddiau gwastraff yn brydlon ac yn briodol, er mwyn lleihau risg.</p>	<p>Codwyd hyn ar lafar â Rheolwr y Practis yn ystod yr arolygiad.</p>	<p>Symudwyd a chafwyd gwared ar y ffiolau, yn ystod yr arolygiad.</p>

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis deintyddol Nicola Taaffe at West Grove

Dyddiad yr arolygiad: 3 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis deintyddol Nicola Taaffe at West Grove

Dyddiad yr arolygiad: 3 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Yn y deintyddfeydd, nodwyd gennym nad oedd dau ddrôr yn gweithio'n iawn a gallai arwyneb gwaith wedi'i sgraffinio amharu ar lanhau effeithiol.	Rydym yn argymhell y dylai'r gwaith cynnal a chadw gael ei gyflawni yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau bod y droriau'n gweithio'n iawn a bod yr awynebau gwaith yn cael eu cadw'n lân.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 8(1)(c)	Canllawiau cydio newydd ar y droriau ac ymchwiliad i atgyweirio'r arwyneb gwaith sydd wedi'i sgraffinio	C.Heron	12/10/2023
Nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod ymarferion gwagio'r	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod cofnodion	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22(4)	Polisi newydd wedi'i roi ar waith ac ymarferion gwagio'r adeilad mewn tân i'w cynnal bob mis	C.Heron	04/10/2023

adeilad mewn tân yn cael eu cynnal.	yn cael eu cadw sy'n dangos pa aelodau o'r staff a gymerodd ran ac unrhyw faterion a nodwyd.		a'u cofnodi eu bod wedi eu cynnal		
Nid oedd mynediad diogel i'r seler, lle roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio.	Rydym yn argymhell y dylid diogelu'r mynediad i'r seler a'i wneud ar gael i'r staff yn unig.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(5)		C.Heron	23/11/2023
Roedd Diffibriliwr Allanol Awtomataidd ar gael i'w ddefnyddio mewn argyfwng meddygol. Roedd hyn yn cynnwys padiau ar gyfer oedolion ond nid rhai pediatrig.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod padiau pediatrig ar gael ar gyfer y Diffibriliwr Allanol Awtomataidd.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 31(8)	Padau pediatrig wedi eu prynu	C.Heron	04/10/2023
Dyweddodd y staff wrthym fod cael gwared â Midazolam sydd wedi mynd heibio ei ddyddiad yn cynnwys dadnatureiddio defnyddio papur tusw.	Rydym yn cynghori y dylid annatureiddio Midazolam cyn ei waredu drwy ddefnyddio deunydd rhwymo sy'n ei wneud yn anadferadwy yn gorfforol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(4)(a)	Fel y cynghorwyd, bydd Midazolam sydd heb gael ei ddefnyddio yn cael ei waredu mewn gwasarn cathod a'i waredu mewn gwastraff peryglus.	C.Heron	04/10/2023

<p>Nid oedd y polisiâu a'r gweithdrefnau diogelu yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru.</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylid diweddarau'r polisiâu a'r gweithdrefnau i gyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan, a bod y staff yn cael gwybod amdanynt.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 14(1)(a)</p>	<p>Wedi'u rhoi ar waith yn y polisi Diogelu ac ap wedi'i lawrlwytho ar iPad y ddeintyddfa.</p>	<p>C.Heron</p>	<p>04/10/2023</p>
<p>Gwelsom gopiâu o restrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol (LocSSIPs) yn cael eu harddangos mewn deintyddfeydd, ond nid oedd y rhain wedi cael eu hysgrifennu'n unigol yng nghofnodion y cleifion.</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylid cofnodi rhestrau gwirio'r LocSSIPs yng nghofnodion unigol y cleifion pan fyddant yn cael eu defnyddio.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13(8)</p>	<p>LocSSIPs wedi'u rhoi ar waith i'w cofnodi yng nghofnodion unigol y cleifion.</p>	<p>N.Taaffe</p>	<p>09/10/2023</p>
<p>Nid oedd dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi yn eu cofnodion.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cynnwys dewis iaith y cleifion.</p>	<p>Safonau'r Gymraeg</p>	<p>Dewis iaith y cleifion wedi'i ychwanegu i gofnodion y cleifion.</p>	<p>N.Taaffe</p>	<p>09/10/2023</p>
<p>Gwelwyd diffyg manylder priodol mewn</p>	<p>Rydym yn cyngori y dylai'r staff clinigol gofnodi</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat</p>	<p>Holl gofnodion y cleifion wedi'u</p>	<p>N.Taaffe</p>	<p>16/10/2023</p>

<p>rhai meysydd yn y cofnodion a welsom. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys: archwiliad y tu mewn a'r tu allan i'r geg, profion sgrinio canser, asesiadau risg, canfyddiadau clinigol o radiograffau ac opsiynau triniaethau.</p>	<p>gwybodaeth ychwanegol a mwy o fanylder yng nghofnodion y cleifion.</p>	<p>(Cymru) 2017, Rheoliad 20(1)</p>	<p>diweddarau i gynnwys y manylion priodol a argymhellwyd a'r canfyddiadau clinigol.</p>		
---	---	-------------------------------------	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Catherine Heron

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 29.11.23